**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Tachwedd 30ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Presennol: Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Einir Williams, D Gwynfor Davies a Gwyn Williams a'r Clerc.

60.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ian Griffith gysylltiad ag eitem 10 – Cais Ariannol – Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn

60.2 CYFLWYNIAD AR BROSIECT BWRIEDIG HEN YSGOL LLANGERNYW – croesawyd y Parch Sally Rogers a Mr Alan Benbow i'r cyfarfod a mynegwyd yr awydd i drawsnewid adeilad yr Hen Ysgol i wneud lle aros fel 'bunkhouse', tŷ golchi, lle i ofalwr fyw a chegin fechan . Y gobaith oedd ceisio am arian y Loteri. Yn anffodus roedd eu cais am arian Leader (Conwy Cynhaliol) yn aflwyddiannus. Cyrhaeddodd Einir Williams y cyfarfod ar y pwynt yma. Roeddynt yn awyddus i dderbyn cefnogaeth y Cyngor Cymuned i'r prosiect gan y bydd angen sefydlu pwyllgor lleol i redeg yr adeilad. Gofynnwyd iddynt pwy oedd yn berchen yr adeilad a'r tir. Diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod ac esbonio'r prosiect gan y Cadeirydd a phenderfynwyd i drafod y cais wedi iddynt adael. PENDERFYNWYD ein bod yn gefnogol bod rhyw ddefnydd yn cael ei wneud o'r hen ysgol a'n bod yn barod i enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fod ar y pwyllgor llywio ond iddynt hwy drefnu'r pwyllgor. Hefyd i ofyn iddynt adael i ni wybod pwy sy'n berchen yr adeilad.

60.3 MATERION YN CODI – FFONAU TALU BT – cafwyd gwybod drwy Gyngor Conwy bod y cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn. Angen holi BT os medran nhw symud blwch ffôn Llangernyw a siarad gyda Suryiah Evans. Mae gwir angen cadw ffôn dalu Gwytherin gan nad oes signal ffôn symudol yno. Deallir bod ardal Cwm Penmachno yn gwneud cais i gadw eu ffôn hwythau.

60.4 MATERION FFYRDD
60.4.1 ALLT WATERLOO – angen gofyn am adroddiad strwythurol a chadarnhad gan yr Adran Ffyrdd bod y tir yn gadarn ar yr allt.
60.4.2 LLWYBR CYHOEDDUS GER TAFARN Y BONT – adroddwyd bod y llwybr yn unol â'r map swyddogol ond gellir cael cyfarfod safle pe bai angen. Cytunodd Diane Roberts i gyfarfod y swyddog ar y safle.
60.4.3 PONTYDD – angen holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gyda'r pontydd.

60.5 TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd gohebiaeth gan y cyfreithwyr yn nodi bod pethau ar y gweill ac yn gofyn am adroddiad strwythurol o'r adeilad. Roedd diffyg yn y llawr yn nhoiledau'r merched/anabl a Chyngor Conwy yn delio â hyn gyda'r contractwr. PENDERFYNWYD anelu i drosglwyddo'r toiledau ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Gan nad oeddem wedi clywed gan Steve Teale ynglŷn â chyfarfod i drafod 'arwydd twristiaeth' yn y pentref penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Dilwyn Roberts gysylltu â'r swyddog.

60.6 RHEOLIADAU ARIANNOL DIWYGIEDIG – adroddwyd bod yr Is-bwyllgor (Diane Roberts, Ann Vaughan, Elen Edwards, Gwyn Williams, Ian Griffith a'r Clerc) wedi cyfarfod ond bod angen trafod ychydig o bethau eto cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

60.7 CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL (SLCC) – PENDERFYNWYD i dalu tâl aelodau y Clerc sef £67.00

60.8 CAIS ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017. Penderfynwyd i holi Ysgol Bro Cernyw a oedd DAWNS I BAWB yn mynychu'r ysgol a rhoi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

60.9 CODI MATERION GAN Y CYHOEDD – trafodwyd sut i ddelio â chwyn gan y cyhoedd ac a ddylid enwi'r person. PENDERFYNWYD cysylltu ag Un Llais ynglŷn â hyn.

60.10 MAST FFÔN SYMUDOL YNG NGWYTHERIN – derbyniwyd llythyr oddi wrth David Jones AS yn amgáu llythyr gan Matt Hancock AS, Gweinidog dros Ddigidol a Diwylliant yn nodi'r datblygiadau sydd ar y gweill drwy'r wlad ynglŷn â systemau ffonau symudol a'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys. PENDERFYNWYD i ofyn iddo beth fyddai hyn yn olygu i ardal Gwytherin. Hefyd gan fod problemau cysylltu â'r we yng Ngwytherin a bod busnesau yn methu anfon gwybodaeth ar-lein dylid gwella'r gwasanaeth rhag blaen.

60.11 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon rhai at yr aelodau ar ebost.

60.12 MATERION LLEOL
60.12.1 Dŵr a rhew ar y ffordd ger Tyn Pistyll yn beryglus iawn.
60.12.2 Sbwriel yn chwythu o'r loriau ailgylchu.
60.12.3 Dŵr yn llifo ar allt Hafodunos ac yn rhewi.
60.12.4 Angen sgubo'r ffordd at hen ysgol Llangernyw.
60.12.5 Rhew ar y tro ar y ffordd uwchben Cartref yr Hen Ficerdy.
60.12.6 Angen llenwi'r tybiau halen.
60.12.7 Glanrafon Llangernyw – bu llifogydd yma ac yn debyg bod rhwystr o dan y ffordd. Angen cyfarfod safle yma.
60.12.8 Dail yn tagu gwterydd ar allt Plas Matw.
60.12.9 Gwterydd wedi tagu ar allt Tyn Bryn – Emlyn Williams yn barod i gyfarfod swyddog.

60.13 BILIAU

| | |
|---|---|
| Hywel Evans (Cylchlythyr) | £7 |
| Ann Vaughan (blodau gaeaf i'r tybiau) | £36 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 yh

*Cymeradwywyd y Cofnodion ..G A Jones.................................................. Dyddiad ...17/1/17*

Community Council Meeting was held on Wednesday, November 30th 2016 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Present: Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Einir Williams, D Gwynfor Davies, Gwyn Williams and Clerk.

60.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Ian Griffith expressed connection with item 10 - Financial Application - National Eisteddfod in Anglesey

60.2 PRESENTATION ON PROPOSED PROJECT IN OLD SCHOOL LLANGERNYW - Rev. Sally Rogers and Mr Alan Benbow were welcomed to the meeting and expressed the desire to transform the Old School building to form 'bunkhouse', laundry, small kitchen and accommodation for caretaker. The desire was to apply for Lottery funding. Unfortunately, their request for Leader (Rural Development) funding was unsuccessful. (Einir Williams arrived at the meeting at this point.) They were eager to receive the support of the Community Council to the project as a local committee will need to be established to run the building. They were asked who owned the building and grounds. They were thanked by the Chairman for attending the meeting to explain the project and it was decided to discuss the application after they leave. RESOLVED that we support that some use is made of the old school and that we are ready to nominate a representative from the Community Council to be on the steering committee once it is set up. Also to ask them to let us know who owns the building.

60.3 MATTERS ARISING –BT PAY PHONES - Conwy Council was informed by the consultation period has been extended. We need to ask BT if they can move Llangernyw phone box and also contact Suryiah Evans regarding similar work in Uwchaled. We really need to keep Gwytherin phone box as there is no mobile signal there. It is understood that the Cwm Penmachno area applied to keep their public telephone also.

60.4 ROAD ISSUES
60.4.1 WATERLOO HILL – need to ask for a structural report from the Highways Dept and confirmation that the land is stable on the hill.
60.4.2 PUBLIC PATH NEAR BRIDGE INN - reported that the route coincided with the official map but a site meeting can be arranged if necessary. Diane Roberts agreed to meet the officer on site.
60.4.3 BRIDGES - need to ask what is the latest situation with the two closed bridges in the area.

60.5 LLANGERNYW TOILET - received correspondence from the solicitors noting that things are in hand and asking for a structural report on the building. The vinyl floor in ladies/disabled toilets needed attention and Conwy Council will deal with this with the contractor. RESOLVED to aim to transfer the toilets at start of next financial year. Since we had not heard from Steve Teale re. a meeting to discuss 'tourism sign' in the village decided to ask Councillor Dilwyn Roberts to contact the officer.

60.6 REVISED FINANCIAL REGULATIONS - reported that the Sub-Committee (Diane Roberts, Ann Vaughan, Elen Edwards, Gwyn Williams, Ian Griffith and Clerk) has met but a few things need to be discussed again before submitting it to the Council.

60.7 SLCC (SLCC) - RESOLVED to pay a Clerk membership of £67.00

60.8 FINANCIAL APPLICATION - RESOLVED to contribute £30 towards National Eisteddfod Ynys Môn 2017 and decided to ask Ysgol Bro Cernyw if 'Dawns i Bawb' attends the school and to put the matter on the Agenda of the next meeting.

60.9 DISCUSSING ISSUES FROM THE PUBLIC - discussed how to deal with a complaint from the public and whether to name the person. RESOLVED to contact One Voice Wales on this matter.

60.10 MOBILE PHONE MAST IN GWYTHERIN - received a letter from David Jones MP enclosing a letter from Matt Hancock MP, Minister for Culture and Digital identifying upcoming developments nationwide on mobile systems and Emergency Network Services. RESOLVED to ask him what this would mean for Gwytherin area. Also as there are Internet problems in Gwytherin and businesses failing to send online information - this should be improved without delay.

60.11 CORRESPONDENCE - the Clerk to send to the members by email.

60.12 LOCAL ISSUES
60.12.1 Water and ice on the road near Tyn Pistyll very dangerous.
60.12.2 Rubbish blowing off Recycling wagons.
60.12.3 Water flowing on Hafodunos hill and freezing.
60.12.4 Road needs sweeping up to the old school Llangernyw.
60.12.5 Ice on the bend higher up than the Old Vicarage Nursing Home.
60.12.6 Grit tubs need to be filled.
60.12.7 Glanrafon Llangernyw - there has been a flood here and probably there is an obstruction under the road. Need a site meeting here.
60.12.8 Leaves blocking gutters on Plas Matw hill.
60.12.9 Gutters blocked on Tyn Bryn hill - Emlyn Williams is ready to meet the officer.

60.13 BILLS
Hywel Evans (Newsletter) £ 7
Ann Vaughan (winter flowers for tubs) £ 36

The meeting ended at 9.15 pm

Approved the Minutes .....G A Jones......................................... ..... Date ...17/1/17.....................